Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 458 HYDREF 2023 | AM DDIM

## DIOLCH I HELEN A JOHN AM 30 MLYNEDD GYDA CHÔR TY TAWE

-HEINI GRUFFUDD

Daeth llond neuadd ynghyd nos Fercher 6 Medi i ddiolch i Helen Gibbon a John Evans am 30 mlynedd yn arweinydd a chyfeilydd i Gôr Ty Tawe.

Daeth nifer o hen aelodau'r côr i ymuno ag aelodau presennol, a chyflwynwyd gweithiau celf iddyn nhw, gan y caligraffydd, Judith Porch.

Cafodd geiriau cerdd yr archdderwydd Mererid Hopwood, 'Ym Mhenrhyn Gwyr' eu hysgrifennu uwchben arlunwaith o fae Rhosili.

Ailgychwynnodd y côr ar ddechrau Medi o dan arweinyddiaeth Bethan Wynne Phillips.







## PARTI CANT ARALL I HARRI

-HEINI GRUFFUDD

Cafodd Harri Clarke Jones ddathliad can mlwydd oed arall, y tro yma ym Methel-Trinity, brynhawn Llun 18 Medi.

Roedd yn gyfle i ddiolch iddo am ei gyfraniad i fywyd Cymraeg Abertawe ar hyd y 70 mlynedd diwethaf. Bu'n drysorydd Tŷ'r Cymry, y Gymdeithas Ddrama, dwy eisteddfod genedlaethol ac eisteddfod genedlaethol yr Urdd, yn ddiacon ym Methel ac yn aelod brwd nifer o gymdeithasau Cymraeg eraill.

Meddai Harri ei fod yn gyfoethog mewn tri pheth - ei iechyd, ei deulu a'i ffrindiau. Dymunwyd blynyddoedd lawer o hapusrwydd iddo eto.



## CÔR TŶ TAWE YN AIL-LANSIO

-HEINI GRUFFUDD

Cafodd Côr Tŷ Tawe ei ail-lansio'n llwyddiannus nos Fercher, 13 Medi, o dan arweinyddiaeth Bethan Wynne Phillips.

Daeth saith o aelodau newydd i gryfhau adran y baswyr a'r altos yn arbennig a thenor a soprano ychwanegol.

Mae croeso i aelodau newydd o hyd. Bydd y côr yn ymarfer bob nos Fercher, yn Nhŷ Tawe, rhwng 7 a 9.



## TRYDYDD PARTI 100 I HARRI

-HEINI GRUFFUDD

Mwynhaodd Harri Clarke Jones drydedd parti i ddathlu cyrraedd 100 oed. Y tro hwn roedd e gyda'i deulu a Chymdeithas Gymraeg Treforys yng Nghlwb Golff Langland.

Cawson nhw wledd yno a dangoswyd yr achlysur ar raglen Prynhawn Da S4C.

Cafodd botel o chwisgi Penderyn gan y rhaglen.



## CYLCH CINIO LLWCHWR

-BETHAN MAIR

Mae tymor newydd Cylch Cinio Glannau Llwchwr yn dechrau nos Fercher 20 Medi - 50 mlynedd ers y cyfarfod cyntaf, a'r un cadeirydd yn llywyddu ag a wnaeth hanner canrif yn ôl!

Croeso cynnes i aelodau hen a newydd, hen ac ifanc. Siaradwyr gwadd difyr a phryd blasus iawn o fwyd (a phwdin) a chymdeithas gynnes.

Barn...

## LLYGAD DIEITHRYN GAN SIMON CHANDLER

-ROB EVANS

Ychydig o ddyddiau yn ôl ces i becyn yn y post oddi wrth Wasg Carreg Gwalch ac ynddo roedd llyfr i mi adolygu ar gyfer Y Wennol, cylchgrawn dw i'n cyhoeddi ar gyfer dysgwyr. Llyfr cyntaf Simon Chandler – Llygad Dieithryn, o Lundain mae Simon yn hanu ac mae wedi syrthio mewn cariad â Chymru a'r iaith Gymraeg. Bellach mae'n byw ym Manceinion ac yn rhedeg grŵp 'Sgwrs a Pheint' yn y ddinas. Ei gartref ysbrydol yw Blaenau Ffestiniog a dyna le mae o wedi gosod ei stori.

Almaenes yw'r prif gymeriad ac mae hi'n siarad Cymraeg a pheidiwch â meddwl bod hynny'n od chwaith achos mae llawer o bobl yn dysgu Cymraeg tu allan i Gymru ac yn cyrraedd safon uchel. Rhan o'r rheswm yw bod rhaid i'r gwersi Cymraeg fod ar-lein yn ystod y pandemig a hynny'n caniatáu i bobl dros y byd ymuno â'r cyrsiau. Byddech yn synnu'r safon maen nhw'n gallu cyrraedd a'u brwdfrydedd dros yr iaith.

Mae'r stori yn ddechau ar fore dydd Iau'r 10fed Mehefin 1915 yng ngwersyll-garchar Fron Goch ger y Bala a dyma le wnaeth Friedrich von Hertling glywed a syrthio mewn cariad â'r iaith Gymraeg, cymaint, i ddweud y gwir, iddo benderfynu ei ddysgu hyd ar rugled.

A dyma ni'n cael ein trosglwyddo i'r presennol a chael ein cyflwyno i'r Almaenes Katja a hithau wedi darganfod llun o'i hen, hen dad-cu a hefyd lythyr, yn Gymraeg oddi wrth rywun o Flaenau Ffestiniog ac ia, Friedrich von Hertling oedd y dyn yna.

Mae hi eisiau dysgu mwy wrth gwrs ac mae hynny'n dod â hi i Flaenau Ffestiniog ac Eisteddfod Llanrwst 2019. Dydw i ddim yn dweud mwy ond mae'r llyfr yn tynnu chi i mewn o'r dechrau cychwyn ac mae'n anodd ei roi i lawr. Mi fydd llawer o lyfrau newydd ar gael yn yr Eisteddfod ond gwnewch yn siŵr bod y llyfr yma ar ben eich rhestr.

Barn...

## RHUN YN SWYNO'R JACS

-DAFYDD WILLIAMS

Aeth nifer sylweddol o bobl Abertawe i Neuadd y Dre Castell Nedd i gwrdd ag arweinydd newydd Plaid Cymru ar noson olaf Mis Gorffennaf

Bu Rhun ap Iorwerth, Aelod Senedd Cymru dros Ynys Môn, yn ateb cwestiynau am sesiwn awr a hanner - ac yn llwyddo creu argraff da iawn ar ei gynulleidfa.

Pwysleisiodd Rhun y rôl pwysig y gallai pobl ifanc chwarae wrth arwain Cymru tuag at annibyniaeth. Dyma'r cyfarfod cyhoeddus cyntaf iddo yn Ne Orllewin Cymru ers ei ddewis yn arweinydd newydd y Blaid.

Clywodd y dorf gyfraniadau hefyd gan Sioned Williams, Aelod De Orllewin Cymru o Senedd Cymru ac Alun Llewellyn, Ystalyfera, Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Castell Nedd Porth Talbot.




## NEWYDDION DIWEDDARAF ADRAN Y GYMRAEG BRYN TAWE

-MEINIR JONES

Nos Fawrth 17/10/23 cafodd y Parti Llefaru Iau gyfle i berfformio'r gerdd '11.12.82' yn noson ddathlu llwyddiant Alan Llwyd yn ennill y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Perfformiodd côr yr ysgol hefyd a diolchwn yn fawr am y gwahoddiad i gymryd rhan mewn noson hyfryd yng Nghapel Calon Lan, Mynydd Bach.



Diolch hefyd i gwmni theatr 'Mewn Cymeriad' am ddod â'r ddrama 'Annie Cwrt Mawr' atom i'r ysgol ddydd Gwener 20/10/23. Dyma ddrama sy'n seiliedig ar hanes y ddeiseb heddwch a grewyd gan fenywod Cymru ganrif yn ôl.



## MWY GAN ADRAN Y GYMRAEG BRYN TAWE
### -MEINIR JONES

Paratowyd fideo ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Heddwch a Diwrnod Coffa Waldo Williams.

Aeth criw o ddisgyblion i glywed Manon Steffan Ros yn trafod 'Llyfr Glas Nebo' yn Amgueddfa'r Glannau ddydd Sadwrn, Hydref 7fed.





Dathlwyd diwrnod T.Llew Jones yn ôl ein harfer gyda gwasanaeth a helfa drysor!





Cafodd 60 o ddisgyblion blwyddyn 7 ddiwrnod hyfryd yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol ddydd Iau, Hydref 11eg. Darparwyd sesiwn yn rhoi gwybodaeth am y Llyfrgell, taith o gwmpas yr adeilad gan gynnwys y cyfle i weld y celloedd sy'n storio'r archifau, ac yna cyfle i grwydro'r orielau.



Un o'r gweithgareddau eleni i ddathlu Diwrnod Shwmae oedd i holl ddisgyblion yr ysgol gyfrannu at fideo i ddysgu ambell linell o Gymraeg elfennol i ffrindiau a rhieni'r ysgol. Yn ogystal, croesawyd rhai o Chweched Ysgol Tregŵyr i gael sgwrs anffurfiol gyda'n criw ni o'r Chweched sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch (a mwynhau rhai danteithion!).

Yna, ar ddiwedd y dydd croesawyd rhai o rieni a ffrindiau'r ysgol am sesiwn o gemau a baratowyd gan y disgyblion i ddysgu Cymraeg e.e. bingo, dominos a chwis Kahoot. Diolch hefyd i siop Tŷ Tawe am ddod i werthu llyfrau.

## NEWYDDION MENTER IAITH ABERTAWE

### DATHLIADAU DIWRNOD SHWMAE
-ANYS WOOD, SWYDDOG DATBLYGU

Cawsom dipyn o hwyl yn dathlu diwrnod Shwmae eleni gydag amrywiaeth eang o weithgareddau e.e Clwb Llygod Bach yn Amgueddfa'r Glannau a'n boreau coffi yn Nhŷ Tawe, y Ganolfan Amgylcheddol ac yn Llys Nini.

Buom hefyd yn cynnal nifer o weithgareddau ysgolion gan gynnwys diwrnod o gemau geiriau hwyliog i drawstoriad o blant Ysgol Gyfun Tregŵyr a threfnwyd hefyd bod criw o ddosbarth Lefel A Cymraeg Tregŵyr yn teithio i Ysgol Bryn Tawe am gyfle i sgwrsio gyda'u criw Safon Uwch nhw. Roedd y ddwy ysgol wedi mwynhau'r profiad ac maent yn awyddus i drefnu mwy o weithgareddau ar y cyd yn y dyfodol!

Yn Nhregŵyr hefyd, trefnwyd Caffi Cymraeg i flwyddyn 7 yn ystod yr awr ginio gan Miss Ellie Thomas, cydlynydd Cymreictod yr ysgol, gan annog y disgyblion i brynu diod a danteithion yn Gymraeg.

Yn hwyrach yn y prynhawn ymunodd Siop Tŷ Tawe â sesiwn gemau i rieni yn Ysgol Bryn Tawe.

Diolch yn fawr i'r ysgolion am y croeso eleni!








Lluniau gan Ellie Thomas

## GŴYL NAWR 2023

-TOMOS JONES, PRIF SWYDDOG


Mae'r rhaglen lawn wedi ei chyhoeddi ar gyfer Gŵyl NAWR 2023 yn Abertawe ar ddydd Sadwrn yr 11eg o Dachwedd.

Mae'r ŵyl eleni yn digwydd ar draws dau lawr yng nghanolfan Tŷ Tawe yng nghanol y ddinas, a bydd yn cynnwys setiau gan artistiaid o Gymru sy'n creu cerddoriaeth amgen, arbrofol mewn nifer o feysydd gwahanol. Bydd Pat Morgan o Datblygu yn gorffen y noson ar y prif lwyfan lan stâr, tra bydd y canwr-cyfansoddwr gwerin amgen Elsbeth Anne yn cloi'r llwyfan lawr stâr. Bydd y diwrnod hefyd yn cynnwys nifer o artistiaid sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu gwaith mewn ffyrdd amrywiol a chyffrous.

Mae'r lein-yp llawn yn cynnwys: Y Pregethwr / Lifting Gear Engineer / Alaw Rhys / Sachasky / Sara Evelyn / R.Seiliog / Radio Free Ponty / Ani Glass / Elspeth Anne / Pat Morgan

Cyn i'r gerddoriaeth ddechrau bydd yna hefyd rhaglen o ffilmiau wedi ei churadu gan dîm NAWR, gan gynnwys "Put Blood In The Music", rhaglen ddogfen Charles Atlas am Sonic Youth a'r sîn cerddoriaeth yn Efrog Newydd, "The Magic Sun" gan Phill Niblock ac yn cynnwys Sun Ra & His Solar Arkestra, a "Tresor" gan Gwenno.

Mae'r ŵyl yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau ar y cyd rhwng NAWR a Menter Iaith Abertawe.




Mae NAWR yn gyfres o gyngherddau amlddisgyblaeth yn Abertawe a'r Gelli Gandryll sy'n cynnwys cerddoriaeth arbrofol, byrfyfyr rhydd, ffilm, lo-fi, jazz rhydd, celf sain, cerddoriaeth werin, a cherddoriaeth newydd. Nod gwaith NAWR yw cynnig lle agored a myfyriol i gynulleidfa brofi cerddoriaeth newydd mewn lleoliad croesawgar ac agos. Mae gwaith Menter Iaith Abertawe yn cynnwys creu cyfleoedd i bobl o bob oedran fwynhau a defnyddio'r Gymraeg yn yr ardal.

Mae tocynnau i'r diwrnod dim ond £8 o flaen llaw ac ar gael i archebu fan hyn: www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

Ymholiadau:
Rhodri Davies (NAWR) = daviesrh@gmail.com
Tomos Jones (Menter Iaith Abertawe/Tŷ Tawe) = tomos@menterabertawe.org

## CAFFI CYMRAEG Y GANOLFAN AMGYLCHEDDOL

Yn cyfarfod pob trydydd dydd Mawrth y mis yng Nghanolfan Amgylcheddol Abertawe am 10.30yb. Sesiwn sgwrsio anffurfiol i siaradwyr newydd neu i unrhyw un sydd am ymarfer neu godi eu hyder wrth siarad Cymraeg. Byddwn yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau hwyliog hefyd, megis chwarae gemau bwrdd fel Sgrabl, chwarae bingo neu gwisys!

Mae croeso i siaradwyr Cymraeg o bob lefel.

Y Ganolfan Amgylcheddol, Pier St, SA1 1RY
10.30yb - 11.30yb




## CYNLLUN CHWARAE

Mae Cynlluniau Chwarae mynediad agored Menter Iaith Abertawe a Cyngor Abertawe yn dychwelyd!
30/10 - 01/11
10:00 - 12:00
Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, Heol Gwyrosydd, SA5 7BU




## COFFI A CHLONC

Galwch draw i Dŷ Tawe ar fore dydd Iau am siawns i sgwrsio am ymarfer eich Cymraeg!




## TWTS TŶ TAWE

Ydych chi'n chwilio am gylch chwarae Cymraeg i'ch plentyn?! Beth am ymuno gyda ni yn ein sesiynau Twts Tŷ Tawe pob prynhawn Gwener yn ystod y tymor ysgol!

Gweithgareddau hwyliog i rieni a'u plant 0-5 oed e.e canu, crefft ac amser stori!

Tŷ Tawe, 1yh-2yh, AM DDIM!




## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

03.11 - HMS Morris (Elysium)

04.11 - DnA, Delyth & Angharad Jenkins, (Forge Fach, Clydach)

10.11 - Mellt (Bunkhouse)

11.11 - Gŵyl NAWR (Tŷ Tawe)

24.11 - Alffa + Grey FLX + Breichiau Hir + People and Other Diseases (Bunkhouse)

25.11 - Los Blancos + French Alps Tiger + Cyn Cwsg (Bunkhouse)

01.12 - Ynys (Tŷ Tawe)













Tocynnau:www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Hydref.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Tachwedd erbyn Hydref 30ain trwy ebostio Anys at:

**datblygu@menterabertawe.org**

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

MENTER IAITH ABERTAWE YN CYFLWYNO / PRESENTS

# ALFFA
# GREY FLX
# BREICHIAU HIR
# PEOPLE AND OTHER DISEASES

24.11.23
THE BUNKHOUSE
ABERTAWE / SWANSEA

18:00 / £8
MENTERABERTAWE.ORG

THE BUNKHOUSE BAR & MUSIC VENUE
SWANSEA MUSIC HUB
REPEATFANZINE.CO.UK
dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ardal Bae Abertawe
Swansea Bay Region
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
menter iaith abertawe